# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Awst 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint oedd y gost o gynhyrchu adroddiad y Prif Weinidog ar gyfer 2004. (WAQ37366)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beth sy'n digwydd i roddion a gyflwynir i Weinidogion yn rhinwedd eu swydd ar ôl iddynt ddod yn eiddo i'r Cynulliad yn unol â pharagraff 10.25 o'r Cod Gweinidogol. (WAQ37380)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaeth â arbenigwyr ynghylch y lefel o Nandrolone (55 gwaith yn fwy na'r lefel a ganiateir) yn sampl Andy Moran o Glwb Pêl-droed y Rhyl ar 13 Mawrth 2004 er mwyn asesu a yw'r cosbau am droseddau cyffuriau yn y byd chwaraeon yng Nghymru yn ddigonol. (WAQ37370)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ar ba ddyddiad y rhoddwyd gwybod i'r Gweinidog fod Andy Moran o Glwb Pêl-droed y Rhyl wedi methu ei brawf cyffuriau ar 13 Mawrth 2004. (WAQ37372)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi ymchwilio i'r effaith a gafwyd ar bêl-droed yng Nghymru yn ystod tymor 2003/04 yn sgil yr oedi a fu cyn i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ddelio ag achos Andy Moran o Glwb Pêl-droed y Rhyl ar ôl iddo fethu prawf cyffuriau ar 13 Mawrth er mwyn amddiffyn hygrededd pêl-droed Cymru. (WAQ37369)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fu trafodaeth rhwng y Gweinidog â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch achos Yegor Titov, a fethodd brawf cyffuriau, yn y cyfnod rhwng 31 Mawrth, pan ddaeth y Gymdeithas yn ymwybodol fod Andy Moran wedi methu'i brawf cyffuriau, ag Ebrill 19 pan lansiwyd yr achos i daflu Rwsia allan o gystadleuaeth Ewro 2004. A oes ganddo unrhyw gynlluniau i drafod y berthynas rhwng y ddau achos hwn gyda'r Gymdeithas. (WAQ37375)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Beth a ddeilliodd o'r Uwchgynhadledd Chwaraeon gyntaf erioed a gynhaliwyd yng Nghymru eleni. (WAQ37364)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymestyn y llwyddiant o hyrwyddo Cymru fel un o'r lleoliadau sydd ymhlith y gorau yn y byd i gynnal digwyddiadau chwaraeon. (WAQ37365)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam fod Meri Huws wedi'i phenodi'n Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn hytrach na ymgeiswyr eraill a sgoriodd yn uwch na hi yn y cyfweliad. (WAQ37393)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses o ddethol a chyfweld a arweiniodd at benodi Meri Huws fel cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (WAQ37394)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefndir, diben ac amcanion cynnig y WDA i ledu Eastbrook Rd i Benarth. (WAQ37377)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ddata traffig yn gysylltiedig â chynnig y WDA i ledu Eastbrook Rd i Benarth. (WAQ37378)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r gost o weinyddu pob canolfan Llygad Busnes unigol. (WAQ37379)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Yn dilyn yr ateb i WAQ36648, pryd ddyfarnwyd y grant trafnidiaeth i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb aml-fodd. (WAQ37386)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Yn dilyn yr ateb i WAQ36648, mewn faint y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl cael gwybod, neu y mae'n ofynnol iddynt gael gwybod, am ganlyniad yr astudiaeth aml-fodd. (WAQ37387)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Arriva plc ynghylch terfynu'r gwasanaeth bws Trawscambria rhwng y Gogledd â'r De. (WAQ37388)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r 'Cynlluniau Datblygu Unedol - Arweiniad i'r Gweithdrefnau' a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yn rhoi arweiniad ac argymhellion ynghylch amseriad ymgynghoriadau cyhoeddus mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unedol ac, os felly, sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn glynu wrth y cyngor a roddir. (WAQ37373)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes yn rhaid i bob un o'r ffermwyr sy'n pori ar dir comin gytuno i osod fferm wynt arno, neu a ellir gwneud hynny os yw'r

mwyafrif yn cytuno. (WAQ37367)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o ryddid sydd gan y Cynulliad i benderfynu ar sut y caiff y Gronfa Genedlaethol ei gweithredu, ac a wnaiff ddatganiad ar pam na fedrodd roi gwybod bod angen penderfyniad gan y DU ar yr agwedd hon o ddiwygio'r PAC cyn y broses ymgynghori. (WAQ37371)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo Parciau Cenedlaethol Cymru. (WAQ37362)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog roi ei sylwadau ar bwysigrwydd Parciau Cenedlaethol Cymru. (WAQ37363)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion contractau Adeilad Newydd y Cynulliad sydd eisoes wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi, gan gynnwys y costau. (WAQ37389)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad manwl ar ei bwriad i gyflwyno cynllun rhyddhad o ran ailfandio ac ailbrisio'r dreth gyngor. (WAQ37395)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran yr ysbytai presennol yng Nglyn Ebwy, Abertyleri, Caerffili, Ystrad Mynach, Aberbargoed, Oakdale a Rhymni. (WAQ37374)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o brosiectau sydd ar y gweill ar gyfer adeiladu ysbytai newydd ar gyfer y GIG yng Nghymru. (WAQ37360)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Sut fydd y newidiadau i gyllid Byrddau Iechyd Lleol a nodwyd gan y fformiwla Townsend yn cael ei weinyddu. Ai dim ond ar arian ychwanegol y bydd hyn effeithio, a thros faint o amser y caiff y newidiadau eu rhoi ar waith. (WAQ37368)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r data diweddaraf am y brechlyn MMR ar y lefel fwyaf lleol ar gyfer y 3 blynedd diwethaf ar draws Cymru. (WAQ37376)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi mwy o arian i Ambiwlans Awyr Cymru. (WAQ37390)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o driniaethau meddygol y

sector preifat a wnaed yn ysbytai'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ37396)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y penderfyniad i gwtogi'r cyllid ar gyfer AIDS Trust Cymru o Ebrill 2005. (WAQ37397)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd mwy o gymorth ar gael ym maes gofal cymdeithasol ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan HIV a/neu AIDS neu sy’n dioddef o HIV a/neu AIDS. (WAQ37398)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Pa bolisïau sydd wedi'u llunio i helpu pobl mewn cartrefi incwm isel i fwyta’n iach. (WAQ37361)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Dadrithiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08. (WAQ37381)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer mentrau Cyffuriau ac Alcohol ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08. (WAQ37382)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer Tai ar gyfer cyn-droseddwyr/pobl ifanc/ camddefnyddwyr sylweddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08. (WAQ37383)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer Trais yn y Cartref ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08. (WAQ37384)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Gronfa Cymunedau Diogelach ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2004-05 hyd 2007-08. (WAQ37385)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** O ran deddfwriaeth ar gyfer cynllun o lwfansau ar gyfer aelodau'r Awdurdodau Tân, o ba ddyddiad fydd y lwfansau'n daladwy i aelodau'r Awdurdodau Tân, a fyddant yn cael eu hôl-dalu ac os felly, o ba ddyddiad. (WAQ37391)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pam fod y rheoliadau i gyflwyno cynllun lwfansau i aelodau'r Awdurdodau Tân wedi'u gohirio. (WAQ37392)